# Amodau a Thelerau  Defnyddio'r Gwasanaeth

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am wefan Dewch i Deithio a Dysgu, y modd mae'n trin eich gwybodaeth, ac amodau a thelerau defnyddio'r wefan.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ystod ehangach o gyfleoedd a phrofiadau i ddysgwyr ac mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn nodi bod disgwyl i bob dysgwr ddysgu o leiaf un iaith ryngwladol yn yr ysgol gynradd. Datblygwyd Gwasanaeth Dewch i Deithio a Dysgu ("y Gwasanaeth") gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), ac mae'r Gwasanaeth ar gael yma:
https://dewchiddysgu.cymru
Cyfyngir mynediad llawn i'r sawl sydd wedi talu am drwydded yn unig.

Mae'r Gwasanaeth yn gartref i adnoddau aml-gyfrwng sy'n ffurfio pecyn addysgol Dewch i Deithio a Dysgu. Cyn prynu trwydded i gael mynediad i'r Gwasanaeth, cewch gyfle i ddarllen yr amodau a thelerau yma.  Bydd y weithred o brynu'r Gwasanaeth yn cael ei ddehongli fel eich cydsyniad chi â'r amodau a thelerau defnydd yma.

Gall PCYDDS ddiweddaru'r telerau hyn ar unrhyw adeg a chyfrifoldeb y cwsmer yw bwrw golwg dros y telerau'n rheolaidd i wirio unrhyw newidiadau. Hysbysir deiliaid trwyddedau am unrhyw newid.

## 1. Defnyddio'r Gwasanaeth

1.1 Mae mynediad llawn i'r Gwasanaeth ar gael drwy brynu trwydded i ddefnyddio'r Gwasanaeth ar siop ar-lein Peniarth, https://siop.peniarth.cymru/ . Darperir cyfarwyddiadau sut mae cael mynediad llawn i'r Gwasanaeth wrth brynu.

1.2 Cyfnod y drwydded yw tair blynedd.

1.3 Cynhelir mynediad i'r Gwasanaeth tra bod trwyddedau mewn bodolaeth. Ar ôl y cyfnod hwnnw, nid yw PCYDDS dan unrhyw rwymedigaeth i ddiweddaru'r Gwasanaeth, na'r deunyddiau sydd yn rhan ohono.

1.4 Unwaith y byddwch chi wedi prynu a chyrchu'r Gwasanaeth, rydych chi'n cytuno i ddefnyddio'r Gwasanaeth yn unol â'r amodau a thelerau yma.

1.5 Er mwyn sicrhau ansawdd ac effeithlonrwydd darparu'r rhaglen Dewch i Deithio a Dysgu, a gwneud defnydd o'r Gwasanaeth wrth wneud, dylai personau sydd yn bwriadu defnyddio'r Gwasanaeth fynychu hyfforddiant. Gellir archebu lle ar sesiynau hyfforddiant ar siop ar-lein Peniarth, neu drwy gysylltu â post@peniarth.cymru

1.6 Nid yw PCYDDS yn derbyn unrhyw atebolrwydd am safon ac effeithlonrwydd  y Gwasanaeth lle defnyddiwyd y Gwasanaeth gan bersonau sydd heb fynychu hyfforddiant.

1.7 Mae mynediad i'r Gwasanaeth, a defnydd o'r drwydded, yn cael eu rheoli a'u gweinyddu gan ddefnyddio cyfeiriadau e-bost. I ddefnyddio'r Gwasanaeth mae angen i chi gofrestru. I wneud hynny, disgwylir i chi ddarparu enw a chyfeiriad e-bost. Eich cyfrifoldeb chi yw diogelu manylion y cyfrif.

1.8 Mae gennych gyfrifoldeb am eich cyfrif, ac am sicrhau nad oes unrhyw weithgarwch gwaharddedig yn digwydd trwy ddefnyddio'r cyfrif hwnnw. Dylech gysylltu â PCYDDS yn syth os oes unrhyw amheuaeth am ddefnyddio eich cyfrif heb ganiatâd.

1.9 Rydych chi'n cytuno i ddefnyddio'r Gwasanaeth at ddibenion cyfreithlon yn unig, a hynny mewn modd nad yw'n groes i hawliau, nac yn cyfyngu ar ddefnydd neu fwynhad unrhyw berson arall o'r Gwasanaeth.

1.10 Cewch ddefnyddio'r Gwasanaeth at eich dibenion addysgiadol, anfasnachol.

1.11 Mewn achosion lle bod y drwydded, a mynediad i'r Gwasanaeth, yn gysylltiedig â chyfeiriad e-bost unigolyn sydd yn gadael yr Ysgol neu sefydliad yn ystod cyfnod y drwydded, cyfrifoldeb yr Ysgol neu sefydliad yw cyfathrebu'r newid mewn amgylchiadau â PCYDDS. Gall PCYDDS drosglwyddo mynediad i gyfeiriad e-bost arall ar ôl derbyn cais ysgrifenedig i wneud. Dylid cyfeirio ceisiadau at post@peniarth.cymru

1.12 Nid yw PCYDDS yn derbyn unrhyw atebolrwydd am argaeledd y Gwasanaeth mewn achos lle nad yw Ysgol neu sefydliad wedi cyfathrebu newid mewn amgylchiadau, yn unol â chymal 1.11, uchod.

1.13 Nid yw PCYDDS yn derbyn unrhyw atebolrwydd am argaeledd y Gwasanaeth mewn amgylchiadau lle bod argaeledd y Gwasanaeth y tu allan i reolaeth PCYDDS.

1.14 Mae PCYDDS yn cadw'r hawl i wrthod ad-daliad ar gyfer y Gwasanaeth dan unrhyw amgylchiadau.

## 2. Ymwadiad

Darperir y Gwasanaeth ar sail "FEL Y BO AR GAEL" heb unrhyw gynrychiolaeth na gwarant o unrhyw fath. I'r eithaf a ddarperir gan y gyfraith berthnasol, mae PCYDDS yn ymwrthod â phob gwarant, amod ac unrhyw delerau o unrhyw fath, boed yn amlwg neu ymhlyg, mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth a'ch defnydd o'r Gwasanaeth.

## 3. Cyfyngiad ar Atebolrwydd

Ar eich menter eich hun yn llwyr y byddwch yn defnyddio'r Gwasanaeth ac i'r eithaf a ddarperir gan y gyfraith, mae PCYDDS yn eithrio'n benodol unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled uniongyrchol, anuniongyrchol, ddilynol, colled neu ddifrod enghreifftiol sy'n deillio o'r Gwasanaeth neu yn sgil ei ddefnyddio. Nid yw hyn yn effeithio ar atebolrwydd PCYDDS ar gyfer marwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod ar ein rhan, camliwio twyllodrus neu gamliwio ynghylch mater sylfaenol. Ni fydd PCYDDS yn gyfrifol am unrhyw un o'r telerau hyn a dorrir oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

## 4. Firysau, Hacio a Throseddau Eraill

4.1 Rhaid i chi beidio â chamddefnyddio'r Gwasanaeth trwy gyflwyno, cyfleu neu anfon unrhyw firysau, ffeil lygredig, cancelbot, ceffyl Caerdroea, mwydyn, bom amser neu resymeg, cofnodydd trawiadau bysellau, ysbïwedd, meddalwedd hysbysebu neu ddeunydd arall a ddyluniwyd i effeithio'n andwyol ar weithrediad y Gwasanaeth.

4.2 Mae unrhyw achos sy'n torri'r ddarpariaeth hon yn drosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a rhoddir gwybod amdano i'r awdurdodau perthnasol ar gyfer gorfodi'r gyfraith. Os torrir y telerau hyn, daw eich defnydd o'r Gwasanaeth i ben ar unwaith.

## 5. Cyfyngiadau

5.1 Rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r gwasanaeth ar y ddealltwriaeth mai dim ond trwy'r platfform a ddarperir – [https://dewchiddysgu.cymru] - y dylech ddefnyddio'r Gwasanaeth a'i gynnwys. Ni chaniateir lawrlwytho'r adnoddau at ddefnydd arall heb ganiatâd penodol gan PCYDDS i wneud hynny.

5.2 Ni ddylech, o dan unrhyw amodau, rannu unrhyw elfen o'r Gwasanaeth gyda phersonau neu sefydliadau sydd heb drwydded i ddefnyddio'r Gwasanaeth.

5.3 Ni ddylech, o dan unrhyw amodau, olygu ymhellach, atgynhyrchu, gwerthu neu rannu'r deunyddiau ymhellach.

## 6. Dolenni at Wasanaethau

6.1 Cedwir clipiau fideo ar wasanaeth Vimeo (gweler Polisi Preifatrwydd Vimeo i gael rhagor o wybodaeth: https://vimeo.com/terms#who_may_use)

6.2 Nid oes gan PCYDDS unrhyw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd safleoedd trydydd parti y gallech fanteisio arnynt ac mae unrhyw ddolenni sydd wedi eu darparu er gwybodaeth yn unig. Os byddwch yn ymweld ag unrhyw safle cysylltiedig, rydych yn

gwneud hynny ar eich menter eich hun, a'ch cyfrifoldeb chi yw cymryd yr holl gamau amddiffynnol rhag firysau ac unrhyw elfennau dinistriol eraill.

6.3 Nid yw PCYDDS yn ategu nac yn gyfrifol nac yn atebol (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) am unrhyw gynhyrchion, gwasanaethau, barn a fynegwyd neu wybodaeth sydd ar gael ar wefannau trydydd parti (gan gynnwys heb gyfyngiad, daliad am unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau ) neu am unrhyw ddifrod, colled neu drosedd a achoswyd gan, neu mewn perthynas â'ch mynediad at y safleoedd trydydd parti hyn ac unrhyw wasanaethau sydd ar gael, a'ch defnydd ohonynt. Mater yn unig rhyngoch chi a darparwr perthnasol y safle hwnnw a/neu unrhyw wasanaeth perthnasol yw unrhyw delerau, amodau, gwarantiadau neu sylwadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymdrin â'r safleoedd trydydd parti.

## 7. Preifatrwydd

Mae PCYDDS yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif ac mae eich hawliau preifatrwydd wedi eu hamlinellu yn ein Polisi Preifatrwydd sy'n rhan o'r cytundeb hwn. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y mae'r PCYDDS yn cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018, a pha ddata a gasglwyd gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth ac at ba ddibenion. Trwy ddefnyddio'r Gwasanaeth, rydych yn cydsynio â chasglu a phrosesu'r data hyn ac rydych yn addo bod y data a ddarperir gennych yn gywir.

## 8. Cyfnod defnydd

8.1 Rhoddir mynediad i'r Gwasanaeth yn ystod cyfnod y drwydded, sef tair blynedd.

8.2 Cewch ddileu eich cyfrif ar unrhyw adeg trwy gysylltu â post@peniarth.cymru

8.3 Cadwn yr hawl i'ch atal rhag defnyddio'r Gwasanaeth os bydd PCYDDS o'r farn eich bod wedi torri'r amodau a thelerau hyn mewn unrhyw ffordd.

## 9. Hawlfraint

Oni nodir fel arall, PCYDDS yw deiliad hawlfraint yr holl ddeunydd a gyhoeddir ar https://dewchiddysgu.cymru. Cedwir pob hawl.

## 10. Hawl diddymu

Os penderfynir bod unrhyw un o'r telerau hyn yn anghyfreithlon, yn annilys neu fel arall yn amhosibl eu gorfodi oherwydd y cyfreithiau mewn unrhyw wladwriaeth neu wlad lle bwriadwyd i'r Telerau hyn fod yn effeithiol, wedyn i'r graddau ac oddi mewn i'r awdurdodaeth lle mae'r telerau hynny'n anghyfreithlon, annilys neu'n amhosibl eu gorfodi, cânt eu diddymu a'u dileu o'r Telerau hyn a bydd y Telerau sy'n parhau'n aros, yn parhau mewn grym yn llawn.

## 11. Awdurdodaeth

Llywodraethir a dehonglir y Telerau yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

## 12. Trafodaethau

Bydd unrhyw drafodaeth sy'n deillio o'r Gwasanaeth neu sy'n gysylltiedig ag ef yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

Arwyddwyd gan: ___________________________
Dyddiad: ___________________________________